Planning Inspectorate
Arolygiaeth Gynllunio

National Infrastructure Planning
Temple Quay House
2 The Square
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau Cwsmeriaid: 0303 444 5000
e-bost: connahsquay@planninginspectorate.gov.uk

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010166

Dyddiad: 25 Tachwedd 2025

Annwyl Mr Bullock

**Cais gan Uniper UK am orchymyn yn rhoi cydsyniad datblygu ar gyfer Prosiect Pŵer Carbon Isel Cei Connah (EN010166)**

**Deddf Cynllunio 2008 – adran 89(3)**

**Penderfyniad gweithdrefnol ar ôl cyhoeddi penderfyniad i dderbyn**

Yn dilyn fy mhenodi'n Awdurdod Archwilio (ExA), rwyf wedi adolygu'r dogfennau cais a gyflwynwyd, a dderbyniwyd ar 5 Awst 2025, a chredaf y gallai materion godi y byddai'n fuddiol mynd i'r afael â nhw cyn gynted â phosibl. Felly, rwyf wedi gwneud penderfyniad gweithdrefnol i ofyn am dystiolaeth ychwanegol. Dylai'r dystiolaeth ganlynol gael ei chyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer ei chyhoeddi ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol erbyn **30 Rhagfyr 2025**.

Ystyrir y gallai'r datblygiad arfaethedig effeithio ar gyfanrwydd un neu fwy o safleoedd Ewropeaidd a warchodir gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, fel y'u diwygiwyd (a adwaenir fel y Rheoliadau Cynefinoedd). O ganlyniad, awgrymir, heb ragfarnu, y dylai dogfennau ategol i wneud cais am randdirymiad o dan y rheoliadau gael eu cyflwyno os deuir i'r casgliad yn ystod archwiliad fod y cam nesaf hwn yn ofynnol.

Mae'n hanfodol i'r dystiolaeth hon sydd wedi'i diweddaru gael ei derbyn yn brydlon er mwyn sicrhau bod pawb sydd â buddiant yn y cais yn cael cyfle i wneud sylwadau perthnasol yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n disgrifio'r datblygiad arfaethedig yn gynhwysfawr.

Os na chyflwynir y diweddariadau y gofynnwyd amdanynt erbyn y dyddiad cau a roddwyd, fe allai hynny effeithio ar y dyddiad y gellir cynnal y cyfarfod rhagarweiniol.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r materion hyn, mae croeso i chi gysylltu â'n swyddfa gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn.

Yn gywir,

*Nick Ely*

Nick Ely
**Awdurdod Archwilio**

Nid yw'r llythyr hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.
Darllenwch ein 'Hysbysiad Preifatrwydd' cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.



disability confident EMPLOYER